# POLISI GORFODI CORFFORAETHOL CEREDIGION

## CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor yn cyflawni ystod eang o rolau rheoleiddiol i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol niferus i amddiffyn y cyhoedd, unigolion a'r amgylchedd yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod 2017-2022 sef Hybu'r Economi, Buddsoddi mewn Dyfodol y Bobl, Galluogi Gwydnwch Unigol a Theuluol a Hyrwyddo Gwydnwch Amgylcheddol a Chymunedol. Cyflawnir y blaenoriaethau yn rôl reoleiddiol yr Awdurdod sydd hefyd yn cynnwys gorfodi. Gall gorfodaeth helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- Lles: er enghraifft, sicrhau bod bwyd a diod yn ddiogel i'w defnyddio
- Yr Amgylchedd: lle mae gennym gyfrifoldebau dros amddiffyn bywyd gwyllt
- Economi: lle mae gorfodaeth safonau masnach yn gallu atal busnesau sy'n masnachu'n dêg rhag cael eu tanseilio gan fusnesau sy'n arddangos ymarferion annerbyniol.
- Cymuned: lle gallwn weithredu i ddiogelu adeiladau hanesyddol
- Tai: lle rydym yn sicrhau safonau gofynnol, yn enwedig yn y sector rhentu preifat
- Dysgu: ble gallwn weithredu i sicrhau bod pobl ifanc yn mynychu'r ysgol
- Mynediad: lle mae ein gweithred yn cadw hawliau tramwy ar agor
- Diogelwch: lle rydym yn gweithio'n helaeth gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr Heddlu.

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r dulliau a ddefnyddiwn wrth ystyried camau gorfodi. Mae'r polisi hwn yn un cyffredinol sy'n berthnasol i holl Wasanaethau'r Cyngor sydd â dyletswyddau gorfodi, er y dylid nodi bod gan rai o'r gwasanaethau Ganllawiau a Rheoliadau Deddfwriaethol penodol, sy'n gosod y gofynion gorfodi ar gyfer y gwasanaethau hynny.

Mae defnydd priodol o'r ystod lawn o bwerau gorfodi, gan gynnwys erlyn, yn bwysig, er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith ac i sicrhau bod y rhai sydd dan ddyletswydd iddi'n atebol am unrhyw fethiant i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles, neu am dorri unrhyw reoliadau a osodir gan y Cyngor.

Wrth benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol, dylai swyddogion ystyried yr egwyddorion a osodir yn y polisi hwn, a'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gorfodaeth a gweithgareddau eraill, megis archwilio ac addysgu. Dim ond ar ôl i unrhyw ymchwiliad gael ei gwblhau â'r dystiolaeth wedi'i adolygu caiff penderfyniad ei wneud ar pa bwerau gorfodaeth ddylid eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle mae'n glir cyn casglu ac ystyried yr holl dystiolaeth lle gwneir penderfyniad nad yw er budd y cyhoedd I erlyn neu y dylai'r troseddwr dderbyn cyngor addas neu ryw gam anffurfiol arall.

Mae'r polisi hwn wedi'i baratoi gan roi sylw priodol i saith egwyddor allweddol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sef:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## EGWYDDORION RHEOLEIDDIO DA

Bydd yr Awdurdod yn ymarfer ei weithgareddau rheoleiddio bob amser gan ystyried, yn briodol egwyddorion bywyd cyhoeddus sy'n cynnwys uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, agoredrwydd a gonestrwydd. Yn ogystal, mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddio 2006, Rhan 2, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Egwyddorion Rheoleiddio Da wrth arfer swyddogaethau rheoleiddio penodedig.

Byddwn yn ymarfer ein gweithgareddau rheoleiddio mewn modd :

Cymesur – bydd ein gweithgareddau'n adlewyrchu lefel y risg i'r cyhoedd a bydd y camau gorfodi a gymerir yn cyd-fynd â difrifoldeb y drosedd;

Atebol - bydd ein gweithgareddau'n agored i archwilio cyhoeddus, gyda pholisïau clir a hygyrch, a gweithdrefnau cwyno teg ac effeithlon;

Cyson – bydd ein cyngor i'r rhai rydym yn eu rheoleiddio'n gadarn a dibynadwy, a byddwn yn parchu'r cyngor a ddarperir gan reoleiddwyr eraill. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cysondeb wrth orfodi, ond mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi bod cysondeb yn golygu mwy nag unffurfiaeth syml. Bydd angen i swyddogion ymarfer eu barn broffesiynol a'u disgresiwn yn ôl amgylchiadau pob achos unigol, a'r cyfrifoldebau perthnasol a'r systemau ymyrryd a gynhelir gan y Cyngor;

Tryloyw – byddwn yn sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio'n deall beth a ddisgwylir ohonynt a beth allan nhw'i ddisgwyl yn ôl;

Wedi'i Dargedu – byddwn yn canolbwyntio'n hadnoddau ar fentrau a gweithgareddau risg uwch, gan adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, a ble mae'r Cyngor yn credu y gall ei ymdrechion gael effaith.

## NOD Y POLISI GORFODI

Nod y Polisi yw gosod ein dull o sicrhau gorfodaeth ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol lle mae'r' Awdurdod a chyfrifoldeb rheoleiddio. Rydym yn bwriadu defnyddio'n pwerau cyfreithiol yn gyson ac yn deg, beth bynnag yw'r amgylchiadau. Mae'r Polisi hwn yn gosod ein dull ar gyfer y rhai a effeithir gan ein camau gorfodi, yn ogystal â Swyddogion y Cyngor.

Mi fydd pob achos a ystyrir gan yr Awdurdod â'i ffeithiau unigryw ei hun ac felly bydd pob achos a ystyrir ganddo yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd yr Awdurdod yn cymhwyso ei bwerau cyfreithiol yn deg ac yn gyson lle bynnag y bo modd.

**Amcanion**

- Sicrhau ein bod yn gorfodi'r gyfraith mewn ffordd deg a chyson
- Cynorthwyo a chynghori busnesau ac eraill i gwrdd â'u hymrwymiadau cyfreithiol
- Canolbwyntio ar rwystro yn hytrach na gwella
- Cymryd camau cadarn yn erbyn y rhai sy'n torri'r gyfraith, yn ymddwyn yn anghyfrifol, neu pan fydd yna risg uniongyrchol i iechyd a diogelwch
- Cefnogi cynnydd economaidd.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein holl weithgareddau gorfodi:

- Yn cael eu cynnal yn unol ag egwyddorion gorfodaeth dda (canllawiau arfer gorau a/neu ddarpariaethau statudol)
- Yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, i amddiffyn hawliau'r unigolyn. Yn arbennig, rhoir sylw priodol i'r hawl i gael gwrandawiad teg, a'r hawl i gael parch mewn perthynas â bywyd preifat a theuluol, y cartref a gohebiaeth
- Yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2010
- Yn cael eu rheoli'n effeithlon
- Yn cael eu cynnal mewn ffordd deg a thryloyw
- Wedi'u targedu yn ôl y risg, ac yn rhoi ystyriaeth i'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru lle bo'n berthnasol.

## CYFRIFOLDEBAU

Dylai pob swyddog ymdrechu i gydymffurfio ag ysbryd y Polisi Gorfodi hwn a rhaid i unrhyw ymadawiad eithriadol gael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Corfforaethol perthnasol a rhaid ei gyfiawnhau gan y swyddog yn ysgrifenedig.

Dylid ond ymadael â'r polisi dan amgylchiadau eithriadol y gellir eu cyfiawnhau, ac yn dilyn ystyriaeth lawn gan y Rheolwr Corfforaethol neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol priodol, gan roi ystyriaeth i iechyd a diogelwch cyhoeddus.

Y Rheolwr Corfforaethol priodol sydd fel arfer yn gwneud y penderfyniad i erlyn neu rybuddio ymhob achos, neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn ogystal â'r Gwasanaethau Cyfreithiol lle mae'n berthnasol.

## CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Bydd yr Awdurdod a'i swyddogion yn cymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i atal a chael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, gan annog perthynas dda rhwng y naill ochr a'r llall, a thrin pawb dan sylw gyda'r un parch, wrth gyfathrebu gydag unigolion a sefydliadau, ac yn ystod unrhyw gamau gorfodi.

Gwneir hyn o ystyried y saith nodwedd gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gyda phob unigolyn, waeth beth yw ei darddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred grefyddol, defnydd o ieithoedd eraill gan gynnwys iaith arwyddion, cenedligrwydd, cyfrifoldeb dros unrhyw ddibynyddion, neu unrhyw reswm arall na ellir ei gyfiawnhau.

Mae'r Polisi hwn ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg a gellir ei ddarparu mewn fformat arall os gwneir cais. Mae'r swyddogion yn ymwybodol o, ac yn parchu gofynion diwylliannol, a phan fo angen, a chyda rhybudd ymlaen llaw, byddant yn trefnu amserau a lleoliadau addas i gwrdd, ynghyd â gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd priodol. Mae'r polisi'n adlewyrchu datganiad polisi iaith Gymraeg y Cyngor gan na ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**CWYNION**

Dylid anfon unrhyw gwynion am y defnydd o'r Polisi hwn at complaints@ceredigion.gov.uk Os na fydd y mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol, bydd yn cael sylw yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion Cyngor Sir Ceredigion:
http://www.ceredigion.gov.uk/English/Your-Council/Complaints/Pages/Complaints-Policy.aspx

**EGWYDDORION RHEOLEIDDIO DA – COD RHEOLEIDDWYR**

Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, Rhan 2, yn gofyn bod yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth i Egwyddorion Rheoleiddio Da wrth ymarfer swyddogaeth reoleiddiol benodol. Mae'r Cod Rheoleiddwyr yn berthnasol wrth reoleiddio busnes ac mae'n ategu egwyddorion y Concordat Gorfodi. Mae'r cod yn berthnasol i swyddogaethau penodol a gyflawnir gan Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnachu a Gwasanaethau Trwyddedu'r Cyngor yn unig.

Rhaid i Reoleiddwyr roi ystyriaeth i'r cod wrth ddatblygu'r polisïau a'r gweithdrefnau gweithredol sy'n arwain eu gweithgareddau rheoleiddio.

Mae'r penderfyniad i erlyn neu argymell unrhyw sancsiwn arall yn gam difrifol sy'n effeithio ar droseddwyr honedig, tystion â'r cyhoedd yn gyffredinol ac, felly, bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud gyda'r gofal mwyaf posibl.

Bydd pob penderfyniad yn cael ei gymryd yn deg, yn ddiduedd ac yn gyfan gwbl gyda'r nod yn y pen draw i sicrhau cyfiawnder i bawb.

**CEFNOGI BUSNESAU A REOLEIDDIR I GYDYMFFURFIO A THYFU**

Byddwn yn ceisio osgoi gosod baich rheoleiddiol diangen ar fusnesau trwy ein gweithgareddau rheoleiddio, a byddwn yn asesu p'un ai y gellid sicrhau'r canlyniadau a ddymunir trwy ddulliau llai llafurus. Bydd ein polisïau a'n harferion yn annog a hyrwyddo cydymffurfiaeth, ond wrth wneud hynny, byddwn

yn ceisio lleihau effaith economaidd negyddol ein gweithgareddau a chostau cydymffurfio. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i faint yr endid a reoleiddir, ei gapasiti a natur ei weithgareddau.

**CYNNAL YMCHWILIAD**

Bydd ymchwiliadau yn cael eu cynnal yn ddiduedd a theg a byddant yn sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n briodol gan ystyried yr holl ddeddfwriaeth, polisïau a'r Rheolau Gweithdrefn Troseddol berthnasol ar yr adeg berthnasol. Yn ystod yr ymchwiliad efallai y bydd yn angenrheidiol i swyddogion gyfweld yn ffurfiol â'r troseddwyr honedig naill ai yn un o swyddfeydd yr Awdurdod neu fel arall mewn Gorsaf Heddlu leol. Cynhelir cyfweliadau ffurfiol o'r fath yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a'r Codau Ymarfer.

Bydd y swyddogion sy'n ymchwilio i'r mater yn gwneud argymhelliad ynghylch y canlyniadau priodol i'w Rheolwr Corfforaethol, wedi i'r ffeil gael ei adolygu gan eu Rheolwr Llinell. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gwneud y penderfyniad terfynol mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

**RHANNU RÔL GORFODI**

Mewn rhai sefyllfaoedd bydd yr awdurdod lleol yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau gorfodi eraill. Lle bydd yr Awdurdod yn gorfodi, bydd y polisi hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i asiantaethau gorfodi eraill y gallwn gydweithio â nhw ar rai ymholiadau.

Os bydd rhywun yn cyflawni trosedd o fewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol, gall fod yn fwy priodol i un Cyngor ei erlyn am bob trosedd, gan gynnwys y rhai a ddigwyddodd y tu allan i'w ardal. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn weithiau'n ffurfio cytundebau cyfreithiol gyda chynghorau eraill, er mwyn i un awdurdod fabwysiadu'r rôl arweiniol, gan wneud defnydd o ddarpariaethau Adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 222 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, neu unrhyw bwerau galluogi eraill.

**GORFODI O FEWN SEFYDLIADAU SY'N CAEL EU RHEDEG GAN YR AWDURDOD LLEOL**

Os mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Gorfodi ar gyfer un o'i safleoedd ei hun, cymerir camau i sicrhau bod y penderfyniadau gorfodi'n rhydd o unrhyw wrthdrawiad buddiannau a bod unrhyw gamau adfer ar ffurf ysgrifenedig.

Bydd unrhyw achosion difrifol o dor deddfwriaeth yn cael eu dwyn i sylw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Prif Weithredwr.

**OPSIYNAU GORFODI**

Mae nifer o opsiynau gorfodi ar gael ac mae'r swyddogion wedi'u hawdurdodi i

orfodi’r ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Dirprwyo’r Cyngor. Pennir yr opsiwn priodol yn dilyn ystyriaeth ofalus o amgylchiadau pob achos unigol. Bydd ein swyddogion yn dehongli ac yn rhoi’r gofynion cyfreithiol a’r polisïau gorfodi ar waith mewn modd cyson a theg.

**CAMAU ANFFURFIOL**

Mewn amgylchiadau lle nodwyd mân achosion o dor deddfwriaeth, gellir barnu nad yw camau ffurfiol yn briodol. Efallai nad oes unrhyw risg sylweddol a bod y drosedd wedi digwydd oherwydd camgymeriad dilys neu ddamwain, a gellir disgwyl yn rhesymol, yn sgil hanes yr unigolyn/busnes yn y gorffennol, y bydd camau anffurfiol yn ddigon i sicrhau bod yna gydymffurfio. Os felly, mae’n bosib na fydd cymryd camau ffurfiol er lles y cyhoedd. Gall camau anffurfiol gynnwys rhybudd llafar neu ysgrifenedig.

Byddwn yn nodi’n glir unrhyw achosion o dor cyfraith ac yn rhoi cyngor ar sut i’w hunioni. Byddwn yn gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac arfer gorau. Bydd yr amser a ganiateir yn rhesymol a bydd yn rhoi ystyriaeth i ddifrifoldeb y drosedd. Gall parhau i beidio â chydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol arwain at gamau gorfodi mwy ffurfiol.

Gall yr Awdurdod, mewn rhai amgylchiadau, dderbyn ymrwymiad gwirfoddol i sicrhau bod unrhyw dramgwyddo’n cael ei union a/neu nad yw’n digwydd eto. Mae peidio ag anrhydeddu ymrwymiad gwirfoddol o’r fath yn debygol o arwain at gamau gorfodi.

**CAMAU FFURFIOL**

Mae gan yr Awdurdod ystod eang o opsiynau rheoleiddio a gorfodi sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys y canlynol: rhoi cyngor ac arweiniad, rhybuddion statudol, Hysbysiadau Cosb Penodedig, Hysbysiadau Cosb Tâl, Hysbysiadau Cosb am Anhrefn, Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol, Cosbau Ariannol Sefydlog, Cosbau Ariannol Amrywiol, Gofynion Dewisol Anariannol, Camau Gweithredu Gwrthiol, Atafaelu, ac mewn perthynas â thrwyddedau, Dirymu, Adolygu ac Atal. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr uchod o gosbau a Hysbysiadau o'r fath yn gynhwysfawr oherwydd yr ystod o gosbau a Gorchmynion sydd ar gael.

Mae gan yr Awdurdod hefyd gamau gweithredu mwy ffurfiol sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys rhybuddion syml ac erlyniadau drwy’r llysoedd.

Rhaid i waredu y tu allan i'r llys fod yn briodol i ddifrifoldeb a chanlyniad y drosedd a rhaid iddo fod yn ymateb priodol i'r troseddwr. Rhaid bodloni safon tystiolaethol y gwaredu y tu allan i'r llys sy'n nodi, lle bo'n briodol, derbyniad clir o euogrwydd. Rhaid ystyried ffactorau lles y cyhoedd hefyd mewn unrhyw warediad y tu allan i'r llys.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 a Gorchymyn Deddf Adsefydlu (Eithriadau) 1975 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2013.

## CASGLU TYSTIOLAETH

Mae gan gyrff rheoleiddio'r grym i gasglu tystiolaeth mewn sawl ffordd wahanol, a gall hynny gynnwys dulliau agored h.y. pan fydd y gwrthrych yn ymwybodol o hynny, neu os yn briodol, ddulliau cudd, pan nad yw'r gwrthrych yn ymwybodol o hynny. Gall y Cyngor ddefnyddio dulliau cudd i gasglu data cyfathrebu megis manylion tanysgrifio a defnydd o wasanaeth ffôn. Mewn achosion o wyliadwriaeth gyfeiriedig neu gasglu data cyfathrebu, rhaid cael awdurdodiad priodol yn unol â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a Deddf Diogelu Rhyddidau 2012. Weithiau gofynnir am awdurdodiad ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig, os allai'r drosedd dan sylw arwain at gyfnod o chwe mis neu ragor o garchar, ond mae yna eithriadau i'r meini prawf hyn, fodd bynnag, gan gynnwys gwerthu alcohol a thybaco i blant. Ceir mwy o wybodaeth ym Mholisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio'r Cyngor.

## ATAFAEL ASEDAU

Dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, gall swyddogion wneud cais am Orchmynion Atafael i'w cyflwyno i bobl a gafwyd yn euog o droseddau ac sydd wedi elwa o'r troseddau hynny. Y bwriad yw adennill y budd ariannol a gafwyd o'r troseddau, a cheisio atal eraill rhag cyflawni'r un drosedd. Er bod camau o'r fath fel arfer yn digwydd ar ôl sicrhau euogfarn yn unig, a'u bod yn cydymffurfio â'r safon prawf sifil, dylid gofyn cyngor Ymchwilydd Ariannol Achrededig yn gynnar yn ystod yr ymchwiliad troseddol, er mwyn i'r Ymchwiliad Ariannol fynd rhagddo yn ddi-oed. Rhaid hysbysu ynghylch y cais i atafael ar ôl sicrhau euogfarn ond cyn pennu dedfryd.

## ATAFAEL A FFORDDEDU

Mae rhai mathau o ddeddfwriaeth yn galluogi swyddogion i atafael nwyddau, offer neu ddogfennau all fod eu hangen fel tystiolaeth ar gyfer achosion llys posib yn y dyfodol, neu i atal troseddu pellach. Pan fydd eitemau'n cael eu hatafael, rhoddir derbynneb briodol i'r sawl y cymerwyd y nwyddau oddi arnynt. Mewn rhai amgylchiadau, gwneir cais i'r Llysoedd Ynadon i fforffedu'r nwyddau. Gellir defnyddio fforffedu ar y cyd ag atafael a/neu erlyn pan fydd angen cael gwared â'r nwyddau neu offer i'w hatal rhag cael eu defnyddio i achosi problem bellach, neu i'w hatal rhag ymddangos ar y farchnad unwaith eto.

## CYMRYD MEDDIANT O ANIFEILIAID

Dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, os bydd milfeddyg yn ardystio bod 'anifeiliaid a warchodir' yn dioddef neu'n debygol o ddioddef os na fydd eu hamgylchiadau'n newid, gellir ystyried cymryd meddiant ohonynt a gwneud cais am Orchymyn i ad-dalu'r costau a wynebir o wneud hynny ac yna cael gwared arnynt. Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 hefyd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â chymryd meddiant o gŵn sy'n crwydro.

## RHYBUDDION SYML

Gellir defnyddio Rhybudd Syml yn hytrach nag erlyn, a gellir ystyried gwneud hynny yn ystod unrhyw benderfyniad i erlyn. Mae rhybudd syml yn gyfaddefiad

o euogrwydd ond nid yw'n unrhyw fath o ddedfryd, na chwaith yn euogfarn droseddol. Cyn y gellir rhoi Rhybudd Syml, rhaid bod yr amodau canlynol wedi'u bodloni:

- rhaid bod yna dystiolaeth ddigonol i allu proffwyddo'n realistig y bydd yna euogfarn
- rhaid i'r troseddwr ddeall arwyddocâd y rhybudd a rhoi caniatâd gwybodus i gyflwyno'r rhybudd
- rhaid i'r troseddwr gyfaddef i'r drosedd
- rhaid i'r troseddwr fod dros 18 oed

Wrth benderfynu p'un ai i roi rhybudd neu erlyn, rhaid rhoi ystyriaeth i'r ffactorau canlynol:

- natur a difrifoldeb y drosedd;
- y gosb debygol petai'r troseddwr yn cael ei brofi'n euog mewn llys barn;
- oedran a chyflwr iechyd y troseddwr;
- hanes troseddol blaenorol y troseddwr;
- agwedd y troseddwr tuag at y drosedd;
- barn y dioddefwr neu'r sawl a dramgwyddwyd;
- p'un ai y talwyd iawndal ai peidio.

Mae rhybudd syml yn fater difrifol fydd yn cael ei gofnodi, ac a fydd yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad ynghylch camau gorfodi yn y dyfodol petai'r busnes neu'r unigolyn yn troseddu eto. Gellir enwi rhybudd syml mewn llys barn, felly mi all ddylanwadu ar lymder unrhyw ddedfryd a roir gan y llys. Os bydd troseddwr yn gwrthod derbyn rhybudd, mi all fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a ddylai'r troseddwr gael ei erlyn am y drosedd ai peidio. Gall fod yna oblygiadau os bydd unigolyn yn derbyn rhybudd syml a'i fod yna'n chwilio am rhai mathau o gyflogaeth.

**ERLYNIAD**

Pan fydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau, a phan ystyrir bod y camau amgen a restrir uchod yn amhriodol, neu wedi'u defnyddio eisoes, yna gall fod angen mynd ati i erlyn.

Ran amlaf y Rheolwr Corfforaethol perthnasol sy'n gwneud y penderfyniad i erlyn neu roi Rhybudd Syml, ar gyngor y Swyddog Ymchwilio.

Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun a'i gymryd yn deg ac yn ddiduedd gyda'r nod pennaf o sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, diffynyddion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol iawn bod y penderfyniad i erlyn neu argymell gwaredu tu allan i'r llys yn un difrifol a bydd yn cael ei gymryd bob amser yn unig ar ôl ystyriaeth ofalus iawn. Dim ond pan fydd yr Awdurdod yn fodlon bod maint eang y troseddoldeb wedi'i benderfynu a bod modd iddynt wneud asesiad llawn o fudd y cyhoedd.

Bydd y penderfyniad yn cael ei gymryd mewn dau gam, sef y cam dystiolaethol gyntaf yn cael ei ddilyn gan yr ail gam sef y cam budd y cyhoedd. Yn wir, mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y Côd cyfredol i Erlynwyr y Goron: http://www.cps.gov.uk/publications/code_for_crown_prosecutors/index.html

Mae gan y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron ddau brif brawf i'w fodloni sef:

**Y Cam Tystiolaethol**

Dim ond pan fydd yr Awdurdod yn fodlon bod yna ddigon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o gollfarn ar bob cyhuddiad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae'r troseddwr wedi'i gyflwyno neu y gallai'r tramgwyddwr ddibynnu arno. Wrth wneud yr asesiad hwn bydd yr Awdurdod yn asesu dibynadwyedd, hygrededd a derbynioldeb y dystiolaeth honno. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod yn derbyn cyngor y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y cwestiwn o dderbynioldeb tystiolaeth. Ni fydd achos nad yw'n trosglwyddo'r cam tystiolaethol yn mynd ymhellach waeth beth yw ei ddifrifoldeb na'i sensitifrwydd.

**Budd Cyhoeddus**

Mewn achosion lle cyflawnwyd y cam tystiolaethol, bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes angen erlyn er budd y cyhoedd, gan bwyso a mesur ffactorau o blaid erlyn a chydbwyso ffactorau lles y cyhoedd sy'n erbyn erlyniad. Bydd y ffactorau hynny ynghyd ag unrhyw ffactorau budd cyhoeddus eraill, gan gynnwys canllawiau neu bolisïau llywodraeth leol, yn galluogi'r Awdurdod i ffurfio asesiad cyffredinol o fudd y cyhoedd. Mae'r rhestr o ffactorau budd y cyhoedd yn rhy eang i fod yn benodol yn y polisi hwn. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried a yw erlyn yn gymesur â'r canlyniad tebygol o gofio'r gost i'r pwrs cyhoeddus, a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, pan fydd yn cael ei bwyso yn erbyn unrhyw gosb debygol.

Bydd pob achos sy'n cwrdd â'r meini prawf tystiolaethol a budd y cyhoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth bellach a roddir i ni fel fydd yr achos yn datblygu yn cael ei ystyried wrth gymhwyso'r profion tystiolaethol a budd y cyhoedd.

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol iawn bod y system cyfiawnder troseddol yn trin plant a phobl ifanc yn wahanol i oedolion ac wrth ystyried achos sy'n ymwneud â grŵp o'r fath, bydd lles a lles gorau'r plentyn yn ffactor budd y cyhoedd a gymerir i ystyriaeth.

Gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch erlyn ai peidio ar ôl i'r canlynol ddigwydd:

- Mae'r sawl a ddrwgdybir wedi cael y cyfle i gynnig esboniad dan rybudd;
- Lle bynnag y bo modd, mae ffeil adroddiad erlyn llawn a chyflawn wedi'i pharatoi a'i chyflwyno i'r Rheolwr Corfforaethol neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol

perthnasol, yn gosod y manylion ar y fformat penodedig;
- Mae’r swyddog ymchwilio wedi trafod yr achos yn llawn gyda’i Reolwr Llinell a’r Rheolwr Corfforaethol neu’r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.

Ar ôl cwblhau erlyniadau, rhaid i swyddogion hysbysu’r buddiolwyr ynghylch canlyniad yr achos fel bo angen. Yn arbennig, bydd unrhyw achwynwyr neu ddioddefwyr yn cael gwybod. Bydd canlyniad yr achos yn cael ei adolygu gyda’r Rheolwr Corfforaethol perthnasol, i drafod unrhyw gamau angenrheidiol yn y dyfodol.

## YMGYNGHORI AC ADOLYGU

Roedd y polisi hwn yn destun ymgynghoriad yn ystod ei gynhyrchiad ac fe'i hadolygir bob tair blynedd.

## MATERION AMRYWIOL

### Gorfodaeth Parcio Sifil (CPE)

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys gweithgareddau monitro a gorfodi a gynhelir dan nawdd Cynllun CPE y Cyngor. Mae'r Gweithgareddau CPE Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru yn cwmpasu'r gweithgareddau hyn a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2012. Mae'r ddogfen Gweithdrefnau CPE ar gael i'w gweld ar-lein ar **www.wppp.org.uk**

### Gorfodaeth Cyfraith Bwyd

Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) 2014 ("y Cod") yn rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad ar weithredu a gorfodi cyfraith bwyd. Cyhoeddir y Cod o dan adran 40 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, a'r rheoliadau cysylltiedig ac mae'n gosod cyfarwyddiadau a meini prawf awdurdodol y mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd eu hystyried.

Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Bwyd feddu ar Bolisi Gorfodi Cyfraith Bwyd sydd wedi'i ddogfennu, sydd ar gael yn rhwydd i weithredwyr busnesau bwyd a defnyddwyr. Gall polisi o'r fath fod yn rhan o bolisi generig, neu ei gyfuno â pholisïau gorfodi eraill, gan sicrhau bod y polisi yn berthnasol i orfodi cyfraith bwyd yn glir.

Mae copi o'n Polisi Cydymffurfio a Gorfodi: Gorfodi Cyfraith Bwyd yn Atodiad A ac ar gael ar-lein.

Bydd unrhyw siarteri / protocolau tebyg a gynhyrchir yn y dyfodol yn cael eu hychwanegu at y polisi hwn ar gyfer cyfeirio.